

Tyfu Canolbarth Cymru
Cyfarfod Partneriaeth
Y Siambr, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
10.30am dydd Gwener 13 Ebrill 2018
10:40 - 12:50pm

Yn Bresennol

Rosemarie Harris (RH)	Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Cadeirydd)
Ellen Ap Gwynn (EAG)	Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (Is-gadeirydd)
Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Ann Elias (AE)	Cyngor Sir Ceredigion
Ann Watkin (AnW)	Llywodraeth Cymru
Ceri Stephens (CS)	Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth
Claire Miles (CM)	Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol
Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Eifion Evans (EE)	Cyngor Sir Ceredigion
Emma Wilde (EW)	Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth
Gareth Jones (GJ)	Cyngor Sir Powys
Gareth Lloyd (GL)	Cyngor Sir Ceredigion
Gareth Rowlands (GR)	Cyngor Sir Ceredigion
John Jones (JJ)	Llywodraeth Cymru
Lisa Griffiths (LG)	Cyngor Sir Powys
Matthew Williams (MW)	Ffederasiwn Busnesau Bach
Mike Shaw (MS)	Cyngor Sir Ceredigion
Paul Griffiths (PG)	Cyngor Sir Powys
Peter Davies (PD)	Undeb Amaethwyr Cymru
Peter Howells (PH)	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Phyl Davies (PH)	Cyngor Sir Powys
Rachel Clegg (RC)	Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol
Rhian Hayward (RH)	Prifysgol Aberystwyth
Rhodri Griffiths (RG)	Llywodraeth Cymru
Rhodri Llwyd Morgan (RLIM)	Prifysgol Aberystwyth
Rob Halford (RHa)	Llywodraeth Cymru
Rob Holt (RHo)	Llywodraeth Cymru
Rowland Rees-Evans (RRE)	Cadeirydd Twristiaeth Breifat
Russell Hughes-Pickering	Cyngor Sir Ceredigion
Vanessa Naughton (VN)	Llywodraeth Cymru
Vivienne Lewis (VL)	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol

Bob Perkins (BP)

Gareth Brown (GB)

Seren Jones

AECOM

AECOM

Cyngor Sir Ceredigion

Katherine Saunders

Sylwedydd, Prifysgol Aberystwyth

1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd Peter Davies i'r cyfarfod. Ef fydd bellach yn dod i gyfarfodydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ran Undeb Amaethwyr Cymru yn lle Mared Jones.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd Vanessa Naughton, Llywodraeth Cymru, i'r cyfarfod. Hi fydd bellach yn mynychu ar ran Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru tra bydd Vivienne Lewis ar absenoldeb mamolaeth. Diolchodd y Cadeirydd i Vivienne Lewis am ei chyfraniad i'r Bartneriaeth a dymunodd yn dda iddi.</p> <p>Croesawyd Emma Wilde i'r cyfarfod, a fydd yn dod i gyfarfodydd Tyfu Canolbarth Cymru yn y dyfodol ar ran Siambr Fasnach Canolbarth Cymru.</p> <p>Yna, gwahoddodd y Cyng. Ellen Ap Gwynn (EAG) y Cyng. Rosemarie Harris (RH) i Gadeirio Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru am y flwyddyn nesaf (2018-19). Diolchodd RH i EAG am ei holl waith yn cefnogi'r Bartneriaeth yn ystod y flwyddyn. Dywedodd RH ei bod yn rhagorol fod y Canghellor wedi cydnabod Tyfu Canolbarth Cymru yn ei araith ar y gyllideb yn ystod yr hydref. Cyfeiriodd RH at y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar y cyd rhwng Ceredigion a Phowys gyda chyfarfodydd Cabinet ar y cyd yn cael eu cynnal, ac un arall ar y gweill ar gyfer 3 Mai 2018.</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan: Y Cyng. Martin Weale – Cyngor Sir Powys Sandra Isaac – Coleg Ceredigion Julian Atkins - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Paul Evans – Venture Automotive</p>	
2.	Cofnodion a chamau gweithredu o gyfarfod blaenorol Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2018	
	Awdurdodwyd y Cadeirydd i gymeradwyo Cofnodion cyfarfod 12 Ionawr 2018 ar ran y Bartneriaeth. Bydd y Cofnodion yn cael eu	

	<p>cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Cabinet yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.</p> <p><u>Materion yn Codi</u></p> <p><u>Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP)</u> Nododd GL ei fod yn cofio trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ynghylch y byddai'r trydydd sector a'r sector preifat yn rhan o Banel Asesu ad hoc Rhaglen Buddsoddiad mewn Adfywio TRIP; ond, nid oedd hynny wedi'i gynnwys yn y Cofnodion. Cadarnhaodd VL hyn, gan ddatgan bod y drafodaeth wedi'i chynnal yn y cyfarfod diwethaf, a'i bod yn briodol cynnwys hynny yn y Cofnodion. Nododd y Cadeirydd y gellid trafod hyn yn nes ymlaen ar yr Agenda, a'i gynnwys yng Nghofnodion cyfarfod heddiw.</p> <p>Nododd DS nad oedd yn teimlo'n gyfforddus â geiriad y Cofnod (Tudalen 6) isod, a gofynnodd iddo gael ei ddileu.</p> <p><i>'O ran Gwynedd, nododd GM na fyddai'r Gogledd-orllewin yn derbyn digon o gyfle, a bod yr holl ffocws ar y Dwyrain. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd De Gwynedd wedi'i gynnwys gyda'r dyraniad cyllid ar gyfer Powys a Cheredigion.'</i></p> <p><u>Cynnydd a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod</u> Yn dilyn y cam gweithredu yn y cyfarfod blaenorol i CM/MS gysylltu â swyddfeydd Ken Skates AC a Jake Berry AC i ofyn am gyfarfod ynghylch Tyfu Canolbarth Cymru, lle cynrychiolir Ceredigion a Phowys, cadarnhaodd EE fod llythyr wedi cael ei anfon ond nad oedd ymateb wedi dod i law hyd yma.</p> <p>O ran cywirdeb, nododd yr Is-gadeirydd mai AS yw Jake Berry, nid AC.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Derbyn cyflwyniad gan y cwmni ymgynghori a benodwyd i ddatblygu 'Rhaglen o Ymyriadau Rhanbarthol Seiliedig ar Dystiolaeth' ar ran y Bartneriaeth.</u></p>	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd Bob Perkins (BP) a Gareth Brown (GB) o AECOM, sef y cwmni a benodwyd i ddatblygu 'Rhaglen o ymyriadau Rhanbarthol Seiliedig ar Dystiolaeth' ar ran y Bartneriaeth er mwyn datblygu Cynllun Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y Canolbarth. Mae Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Ceredigion a Phowys, wedi bod yn goruchwyllo'r comisiwn. Cynhaliwyd Cyfarfod Cychwynnol ddoe hefyd.</p>	

Atodir copi o'r cyflwyniad.



18-04-12 Growing
Mid Wales Partnership

Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Gwybodaeth am AECOM
- Gwybodaeth am y comisiwn
- Ffocws posibl ar gyfer ymyriadau
- Dull gweithredu'r prosiect
- Rôl y Bartneriaeth
- Amserlenni'r prosiect

Nododd y Cadeirydd y bydd yn bwysig cynnwys y gymuned fusnes yn y gwaith hwn yn y dyfodol. Hefyd, nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod y gwaith hwn yn ennill momentwm nawr, ac yn rhan o agenda grŵp swyddogion Tyfu Canolbarth Cymru. Nododd BP a GB y bydd cyfathrebu rheolaidd â'r Bartneriaeth er mwyn sicrhau bod popeth ar y trywydd iawn.

Nododd EE ei bod yn bwysig canolbwyntio ar bwyntiau gwerthu unigryw Canolbarth Cymru a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n unigryw i'r ardal.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o gynnwys y gymuned fusnes yn y gwaith hwn yn y dyfodol. Nododd RRE, **MTW** fod ganddo nifer fawr o gysylltiadau yn y diwydiant twristiaeth ac amaethyddiaeth ac y byddai'n fodlon rhannu'r rhain â BP a GB ar ôl y cyfarfod.

Hefyd, cadarnhaodd MW, Ffederasiwn Busnesau Bach, y byddai'n fodlon cymryd rhan yn y broses o sefydlu unrhyw ymyriadau i gefnogi busnesau ar draws y sbectrwm gan fod gweithwyr hunangyflogedig a microfusnesau yn bwysig i'r gwaith hwn.

Nododd RG fod cysylltiad cryf rhwng busnesau ac academia yn y rhanbarth, ac y byddai ef a'i dîm yn llwyr gefnogi unrhyw waith yn y dyfodol.

Cadarnhaodd RHo fod y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn cael ei gynnal ar 20 Mehefin 2018, ac y byddai'n gallu cynnal rhywfaint o drafodaethau yn y fforwm hwnnw er mwyn ceisio

	<p>cynyddu'r cyfraddau ymyrryd.</p> <p>Hefyd, cadarnhaodd CS fod gan Bwyllgor Cydweithredol Canolbarth Cymru ddigwyddiadau ar y gweill hefyd, a byddai croeso i AECOM fynychu.</p> <p>Cytunwyd y byddai gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliad o fudd er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.</p> <p>Nododd AnW y cafwyd trafodaethau yn y cyfarfod cychwynnol ddoe (12 Ebrill 2018) ynghylch yr angen am gynllun ymgysylltu. Dywedodd AnW y byddai o fudd cylchredeg y cynllun ymgysylltu i'r Aelodau fynegi eu safbwyntiau ac er mwyn iddo gael ei fonitro'n ofalus ac yn fanwl. Hefyd, dywedodd AnW fod y cyhoeddusrwydd i benodi'r ymgynghorwyr yn hanfodol er mwyn rhoi gwybod i'r rhanbarth am y darn pwysig hwn o waith sydd ar y gweill. Dywedodd AnW y byddai'n fodlon edrych yn fanwl ar hyn drwy dimau cyfathrebu awdurdodau lleol Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i BP a GB am eu cyflwyniad heddiw.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Trefnu Gweithdy i Randdeiliaid</p>	
4.	<p>Derbyn diweddariad llafar ar gyfarfodydd Cabinet Cyngor Sir Ceredigion / Powys ar y Cyd a'r trefniadau sy'n cael eu trafod</p>	CM
	<p>Rhoddodd EE ddiweddariad llafar ar y cyfarfodydd Cabinet ar y cyd sydd wedi bod yn cael eu cynnal rhwng Cyngorau Ceredigion a Phowys. Dywedodd EE fod y ffaith fod Tyfu Canolbarth Cymru wedi cael cydnabyddiaeth yn y fargen twf, wedi cyflymu'r trafodaethau rhwng y ddwy asiantaeth bartner.</p> <p>Yn dilyn y cyfarfod olaf a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2018, dywedodd EE fod un trefniant llywodraethu yn cael ei sefydlu ar gyfer y rhanbarth a bod MS (Cyngor Sir Ceredigion) ac LG (Cyngor Sir Powys) wedi cael y dasg o baratoi Asesiad Effaith Integredig rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i ddangos i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru fod yna ymrwymiad cadarn. Dywedodd EE y bydd sut y bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys awdurdodau cyfagos yn cael ei ystyried hefyd. Dywedodd EE y bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cabinet ar y cyd ar 3 Mai 2018.</p> <p>Dywedodd EE fod Cynllun Strategaeth Economaidd wrthi'n cael</p>	

	<p>ei ddatblygu ar gyfer y rhanbarth hefyd. Mae Grŵp Strategaeth Economaidd yn cael ei gynnull i wneud gwaith ymchwilio, gan gynnwys dynodi cwmnïau yn y sector preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwaith ymgysylltu eto.</p> <p>Dyweddod EE fod nifer far o gwmnïau rhyngwladol preifat yn y rhanbarth a all gyfrannu'n fawr i'r economi leol a bod gweithdy wedi'i gynnal yng Ngheredigion yn ddiweddar lle'r oedd busnesau mawr y sir wedi dod yno a rhoi cyflwyniadau. Dywedodd EE mai un peth a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdy oedd yr angen i ganolbwyntio mwy ar y dysgwyr a rhoi sylw i'r angen i gadw dysgwyr yn y Canolbarth ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau addysg uwch. Dywedodd EE y dylai'r sectorau preifat a chyhoeddus ganolbwyntio ar hyn hefyd. Bydd y Cynllun Strategaeth Economaidd yn cael ei drafod eto yng nghyfarfod y Cabinet ar y cyd ar 3 Mai 2018.</p> <p>Dyweddod DS y byddai'n awyddus i drafod rôl Gwynedd yn y dyfodol, ac nad oedd yn teimlo'n gyfforddus nad oedd Gwynedd yn bartner llawn o'r fargen twf. Dywedodd EE fod trefniadau llywodraethu ar waith sy'n nodi nad oes modd i Awdurdodau fod yn aelod o fwy nag un ardal twf. Dywedodd EAG ei bod yn hanfodol bwysig cynnwys Gwynedd yn y trafodaethau yn y dyfodol. Nodwyd y bu rhywfaint o negeseuon cymysg ynghylch hyblygrwydd y Fargen Twf.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Dywedodd EAG fod cyfarfod wedi'i drefnu â'r Arglwydd Bourne, Swyddfa Cymru, ac y byddai'n ceisio cael mwy o eglurder yn y cyfarfod hwnnw.</p> <p>Dyweddod EE fod y ddau Gabinet yn dymuno ystyried brand Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer y dyfodol er mwyn iddo gael ei hunaniaeth ei hun. Dywedodd EE y byddai'r dewisiadau ar gyfer y brand yn cael eu cyflwyno o dan eitem 4 ar yr agenda, er mwyn gwneud penderfyniad.</p>	
5.	<p>Ystyried a chytuno ar ddewisiadau brand ar gyfer y Bartneriaeth</p>	

Cyflwynodd MS (Cyngor Sir Ceredigion) ac LG (Cyngor Sir Powys) y dewisiadau ar gyfer brand Tyfu Canolbarth Cymru yn y dyfodol. Dywedodd MS y cytunwyd bod angen logo neilltuoel ac unigryw i gyfleu hanfod Tyfu Canolbarth Cymru, yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ac yng nghyfarfod Grŵp Swyddogion Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018. Mae MS ac LG wedi bod yn gweithio ar y cyd â'u tîm cyfathrebu mewnol a dylunwyr proffesiynol, ac mae pedwar dewis yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau eu hystyried heddiw. (Gweler yr atodiad isod).



LOGO - GMW
20180413.pdf

Ar ôl ystyried pob logo, cytunodd y Bartneriaeth ar ddewis **6** ar yr amod bod y ffocws ar ardal Canolbarth Cymru'n cael ei gryfhau.



Roedd PD yn dymuno nodi nad oedd yn cytuno â'r logo hwn gan nad oedd yn ddigon penodol o ran ffiniau clir Canolbarth Cymru, ac ati.

6. Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP)

Cyflwynodd GR yr adroddiad atodedig ynghylch y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP), gan gyflwyno'r adroddiad yn fanwl i'r Aelodau.



Regeneration Plan
Report 13.4.18 v3.pc



MID WALES
REGIONAL REGENERATION PLAN

1. Y Cynllun Adfywio

Cyflwynodd GR y Cynllun Adfywio i Aelodau, sef dogfen a baratowyd gan Lywodraeth Cymru i fapio a chydlynu gweithgareddau adfywio yn y rhanbarth am y 10 mlynedd nesaf. Eglurodd GR y bydd y ddogfen yn ddogfen fyw a fydd yn datblygu fel bo angen. Ond, nodwyd bod Llywodraeth Cymru angen i gynllun drafft gael ei gyflwyno a'i lofnodi. Cyflwynwyd Atodiad 1 (wedi'i atodi uchod) ar ffurf drafft i Lywodraeth Cymru

ar 7 Mawrth 2018, ac mae adborth cadarnhaol wedi dod i law.

Nododd aelodau fanylion Cynllun Adfywio Partneriaeth Canolbarth Cymru a chytuno ar ei gynnwys.

2. Y broses ar gyfer dynodi a dewis syniadau buddsoddi ar gyfer Cyllid TRIP



Nododd GR fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dywedodd GR fod hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Adfywio ar gyfer buddsoddi yn chwe thref marchnad y rhanbarth i dargedu gweithgareddau adfywio. Dywedodd GR y dywedwyd yng nghyfarfod diwethaf Tyfu Canolbarth Cymru y byddai'r cyllid hwn ar gael i bob sector. Eglurodd GR fod galwad agored am ddatganiadau o ddiddordeb wedi bod ar GwerthwchiGymru, a heddiw (13 Ebrill 2018) oedd y dyddiad cau. Ond, dywedodd GR y byddai'r porth yn cau am 5pm oherwydd gwaith cynnal a chadw, felly roedd y dyddiad cau wedi cael ei ymestyn i fore dydd Llun (16 Ebrill 2018). Bydd yr Alwad Agored yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb am syniadau ar gyfer prosiectau adfywio o bob sector. Yna, byddant yn cael eu sgorio a'u hasesu, a bydd y syniadau gorau'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Adfywio. Nodwyd fod 22 datganiad o ddiddordeb wedi dod i law hyd yn hyn.

Nododd Aelodau'r broses a oedd ar waith ar gyfer dynodi syniadau buddsoddi penodol a allai fod yn gymwys ar gyfer cyllid TRIP. Hefyd, nododd yr aelodau fod y dyddiad cau wedi cael ei ymestyn tan fore dydd Llun oherwydd bod y Porth yn cau am 5pm ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

Dywedodd GR y byddai angen i Aelodau benodi Grŵp Asesu i sgorio ac asesu pob datganiad a ddaw i law. Dywedodd GR y bydd angen cynrychiolydd o bob awdurdod lleol sydd â phwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar y Grŵp. Bydd hefyd o fudd cael cynrychiolydd o'r trydydd sector a'r sector preifat.

Cytunodd aelodau i benodi grŵp llywio i asesu a sgorio'r Datganiadau o Ddiddordeb. Gofynnodd y Cadeirydd i'r ddau awdurdod lleol gynnal proses ddethol ar gyfer y grŵp llywio.

Dywedodd GR bod angen cytuno ar amserlen hefyd, a dywedodd y byddai'n well i'r grŵp llywio gyfarfod cyn gynted â phosibl, oherwydd bydd angen cwblhau'r broses ddethol erbyn canol mis Mai 2018.

	<p>Nododd yr aelodau'r amserlenni tynn sydd ynghlwm â'r gwaith a chytuno y dylai'r Grŵp gyfarfod yn fuan.</p> <p>Holodd CM a oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau wrth i Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys fod yn rhan o'r broses sgorio? Dywedodd GJ fod y broses yn cael ei chyflwyno'n rhanbarthol ac y bydd yn cael ei chymeradwyo'n rhanbarthol drwy'r Bartneriaeth. Dywedodd GJ fod strwythurau llywodraethu ar waith i ganiatáu i hynny ddigwydd.</p> <p>Dywedodd GL mai Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Dim ond y syniadau gorau a fydd o fudd i'r rhanbarth y bydd y Bartneriaeth yn eu cymeradwyo.</p>	MS
7.	<p>Adroddiad Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru a'r diweddaraf ar y Cynllun Gweithredu</p>	
	<p>Cyflwynodd RC yr adroddiad sydd wedi'i atodi, a oedd yn canolbwyntio ar baratoi a datblygu'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2018 a'r ffocws penodol ar ôl troed Tyfu Canolbarth Cymru.</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;"> <div style="text-align: center;">  <p>Mid Wales Report RLSP.pdf</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>RLSP Employment and Skills Action Plan</p> </div> </div> <p>Nododd RC fod dogfen y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn arfer bod yn ddogfen hirfaith. Ond, ar gais Llywodraeth Cymru, bydd y ddogfen newydd yn fyrrach ac yn gliriach, yn cynnwys tystiolaeth i Lywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ddysgu yn y gwaith ac addysg bellach galwedigaethol llawn amser yn y rhanbarth. Ni fydd hon yn ddogfen gyhoeddus mwyach. Sicrhaodd RC yr Aelodau y bydd yr un faint o ymgysylltu yn digwydd yn y Bartneriaeth ac y bydd Aelodau'n cael cyfle i ymgysylltu a chyfrannu at y cynllun.</p> <p>Dywedodd RC hefyd mai bwriad y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol eleni oedd canolbwyntio ar ddau faes economaidd ar wahân, sef Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe ac ardal Tyfu Canolbarth Cymru er mwyn ei gwneud yn haws cyflwyno argymhellion penodol ar gyfer pob ardal.</p> <p>Dywedodd RC eu bod wrthi'n casglu tystiolaeth gadarn am gyflogwyr drwy arolygon electronig. Dywedodd RC fod saith grŵp clwstwr yn gweithredu yng Ngheredigion a Phowys, ac yr hoffai'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol gynyddu hyn er mwyn cael cynifer o fusnesau â phosibl yn rhan o'r trafodaethau.</p>	




Dyweddod RC fod y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn dymuno cael mwy o ymgysylltu ag ysgolion uwchradd yn y rhanbarth, a chroesawodd RC y cyfle i fynd i Ffeiriau Gyrfaoedd ac ati. Ymddiheurodd RC am nad oedd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol wedi gallu mynd i'r Ffair Gyrfaoedd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar oherwydd y tywydd garw. Nodwyd y cynhaliwyd arolygon â 180 o ddysgwyr ym Mhowys yn ddiweddar ynghylch y prentisiaethau a'r cyngor ar yrfaeodd sydd ar gael, sy'n ddefnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol.

Dyweddod EAG nad oedd hi'n hapus â sut mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn delio â rhanbarth Canolbarth Cymru gan nodi y bydd y rhanbarth hwnnw'n pwyso am gael ei Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ei hun sy'n briodol i'r ardal. Dyweddod EAG nad oedd hi'n hapus am nad oedd wedi gweld unrhyw gyfeiriad at Ceredigion HCT (sydd â chysylltiadau cryf â'r prif gyflogwyr yn yr ardal) yn adroddiadau heddiw. Dyweddod RC eu bod wedi cael trafferth cael cyflogwyr i ymgysylltu yn y rhanbarth y llynedd, ond y bydd yn ceisio gwella ar hyn o un flwyddyn i'r llall. Dyweddod MS y bydd yn rhaid i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ymgysylltu â'r cwmni ymgynghori AECOM, er mwyn i'r cwmni gael darlun gwell o'r ymgynghori sydd wedi'i wneud â busnesau. Dyweddod RC na fyddai unrhyw broblem â hyn.

Dyweddod MW y byddai'n hoffi gweld mwy o ymgysylltu rhwng y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a'r gweithlu hunangyflogedig i sicrhau bod anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu. Dyweddod RC y bydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn cryfhau hyn ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda'r gweithlu hunangyflogedig.

Dyweddod JJ fod ymgysylltu â chyflogwyr yn hanfodol er mwyn cefnogi'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a dyweddod y byddai ei dîm ac yntau'n fwy na pharod i helpu gyda'r gwaith hwn.

Dyweddod EE ei bod yn bwysig i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ganolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen yn y rhanbarth i ganiatáu i bobl ifanc aros yng Nghanolbarth Cymru a chael mynediad at swyddi lefel uchel. Dyweddod RC fod hyn yn rhywbeth mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio arno.

	<p>Gofynnodd y Cadeirydd am i ddogfen y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2018 gael ei chynnwys ar Agenda cyfarfod nesaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhelir ar 13 Gorffennaf 2018.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Cynnwys dogfen y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2018 ar Agenda cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 13 Gorffennaf 2018.</p>	RC/Gweinyddol
8.	<p>Derbyn adroddiad diweddarau Ymgysylltu Rhanbarthol</p>	
	<p>Cyflwynodd MS yr adroddiad sydd wedi'i atodi a'r argymhellion ynghylch diweddarau'r Ymgysylltu Rhanbarthol yn ystod Chwarter 1.</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;"> <div style="text-align: center;">  <p>Regional Engagement report Q2 2018.pdf</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>Growing Mid Wales Partnership response</p> </div> <div style="text-align: center;">  <p>Draft ESF priority - public service reform.</p> </div> </div> <p>Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <u>ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru - Blaenoriaeth 1</u> <p>Nododd MS fod hwn wedi dod i ben ddiwedd mis Mawrth a bod bidiau catalog wedi'u cyflwyno o'r rhanbarth.</p> <p>Nododd yr aelodau'r datblygiadau a'r cysylltiadau â'r gwaith ymgynghori sy'n dod i'r amlwg.</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. <u>Digwyddiadau a chyfarfodydd a fynychwyd</u> <p>Rhestrodd MS nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd sydd wedi'u mynychu yn ystod y chwarter.</p> <ol style="list-style-type: none"> 3. <u>Ymateb i bapur ymgynghori Llywodraeth Cymru "Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit"</u> <p>Nododd MS fod ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fuddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit wedi'i gyflwyno. Diolchodd MS i'r Partneriaid am gymeradwyo'r ymateb drafft dros e-bost. Atodir yr ymateb terfynol, er gwybodaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 4. <u>Blaenoriaeth 4.4 ERDF: Buddsoddiadau sy'n cael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol (y Gorllewin a'r Cymoedd yn unig, Ceredigion yn unig yn gymwys yn rhanbarth y Canolbarth)</u> 	

Dywedd MS fod swyddogion yng nghyfarfod Grŵp Swyddogion Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 wedi cytuno i argymhell bod y Bartneriaeth yn blaenoriaethu dau brosiect i gyflwyno cais am gyllid o dan ranbarth y Gorllewin a'r Cymoedd, Blaenoriaeth 4.4 ERDF:

- Tai Ceredigion; Canolfan Dulais; Creu manau busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig a Mentrau Cymdeithasol mewn adeilad newydd ar safle yn Llanbedr Pont Steffan. Bydd y mentrau'n targedu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer tenantiaid Tai Ceredigion, lle mae nifer ohonynt yn ddi-waith neu'n dangyflogedig. Cyfanswm tebygol y gost: £3,000,000; Arian cyfatebol: £2,000,000; ERDF £1,000,000.
- Prifysgol Aberystwyth; Hen Goleg (y de); Creu manau busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig a Mentrau Cymdeithasol yn y sector Technolegau Creadigol, a fydd yn arwain at 12 swydd newydd a rhagor o gyfleoedd. Cyfanswm tebygol y gost: £1,400,000; Arian cyfatebol £400,000; ERDF £1,000,000.

Cytunodd yr aelodau â blaenoriaethau rhanbarthol yr uchod.

1. Blaenoriaeth ESF newydd; mae WEFO yn gofyn am safbwyntiau gan y rhanbarth ynghylch Blaenoriaeth ESF arfaethedig newydd


Cyfeiriodd MS at yr adroddiad drafft sydd wedi'i atodi, lle mae WEFO yn gofyn am safbwyntiau gan y rhanbarth i gefnogi'r gwaith rhanbarthol yng Nghymru a'r trefniadau gwaith mwy ffurfiol rhwng awdurdodau lleol sy'n berthnasol i'r Bartneriaeth. Dywedodd MS fod angen ymateb erbyn 20 Mai 2018.

Eglurodd RH (Llywodraeth Cymru) fwy am yr adroddiad drafft i'r Aelodau. Dywedodd RH eu bod yn ceisio defnyddio cyllid yr UE yn llawn yn y rhaglen bresennol a defnyddio rhywfaint o gyllid i gefnogi cyllid yr UE sydd ar gael ar hyn o bryd yn barod ar gyfer pan fydd y DU yn gadael yr UE y flwyddyn nesaf. Bydd y cyllid penodol hwn yn mynd tuag at ddatblygu'r gallu i wneud trefniadau rhanbarthol ac ategu cynhwysedd rhanbarthol. Dywedodd RH y bydd papur ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ym mis Mai, ar gyfer penderfyniad.

Cam gweithredu: Gofynnodd y Cadeirydd i MS lunio ymateb

MS



	drafft ar ran Tyfu Canolbarth Cymru a'i ddosbarthu i'r Aelodau gyflwyno sylwadau arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.	
9.	Derbyn adroddiad diweddarau gan y Grŵp Seilwaith a Chysylltedd.	
	<p>Cyflwynodd AE Adroddiad y Grŵp Seilwaith a Chysylltedd, a nodwyd gan y Grŵp.</p>  <p>Connectivity and infrastructure report</p> <p>Cyflwynodd AE ddau ddiweddariad pwysig:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dywedodd AE fod Abellio Rail Cymru (ARC) wedi tynnu'n ôl o'r broses ryddfrait oherwydd cwmp ei bartner, Carillion. Dau o gynigwyr sydd ar ôl bellach. Mae'n debyg y bydd y cynigiwr llwyddiannus yn cael gwybod hynny ym mis Mai 2018. • Nododd AE fod twf teithio o bell i Gymru ar i fyny, yn dilyn diweddariadau ystadegol gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt defnydd teithwyr a gorsafoedd rheilffordd, ac mae hynny'n galonogol. Nodwyd fod niferoedd ar Reilffordd y Cambrian wedi gostwng. <p>Dywedodd AW ei fod wedi bod mewn gweithdy'n ddiweddar ynghylch cefnffyrdd yn y rhanbarth. Dywedodd AW fod llawer yn cytuno â'r yr hyn sy'n cael ei ddatblygu yn y rhanbarth yng nghyswllt y prif flaenoriaethau ar gyfer gwella cefnffyrdd. Dywedodd AW ei fod yn galonogol gweld bod rhaglen barhaus ar gyfer cefnffyrdd ar gael.</p>	
10.	Unrhyw Fater Arall	
	<p><u>Paul Griffiths yn ymddeol</u></p> <p>Nodwyd mai hwn yw'r cyfarfod olaf o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i Paul Griffiths oherwydd y bydd yn ymddeol o Gyngor Sir Powys cyn bo hir. Diolchodd y Cadeirydd i PG am ei gyfraniad amhrisiadwy i'r Bartneriaeth ac i Gyngor Sir Powys, a dymunodd ymddeoliad hapus ac iach iddo.</p> <p><u>Grŵp Llywio TRIp</u></p> <p>Yn dilyn y penderfyniad a wnaed ynghylch eitem 6 ar yr agenda, sef y dylid cynnull grŵp llywio, holodd RHP pwy ddylai fod yn rhan o'r grŵp hwnnw. Cadarnhaodd y Cadeirydd y dylai'r ddau awdurdod holi aelodau nad ydynt yn perthyn i'r awdurdodau lleol er mwyn ceisio cael cynrychiolwyr.</p> <p><u>Signal Ffonau Symudol a Band Eang</u></p>	

	<p>Gofynnodd EAG am gynnwys eitemau sy'n ymwneud â Signal Ffonau Symudol a Band Eang yn y rhanbarth gael eu cynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar 13 Gorffennaf 2018.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Cynnwys Signal Ffonau Symudol a Band Eang yn y rhanbarth ar agenda cyfarfod nesaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 13 Gorffennaf 2018.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y dylid edrych ar gyfansoddiad y Bartneriaeth er mwyn adolygu a ddylid gwahodd unrhyw sefydliadau eraill, ac ati, i gyfrannu.</p>	<p>Gweinyddol</p>
	<p>Dyddiadau cyfarfodydd i'r dyfodol</p>	
	<ul style="list-style-type: none"> • 13 Gorffennaf 2018 am 10.30am yn Llandrindod, Powys • 5 Hydref 2018 am 10.30am yn Aberaeron, Ceredigion 	

Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cynghorydd Rosemarie Harris, Cadeirydd